

Rhagarweiniad

Cynhaliwyd yr ymchwil yn ystod profiad addysgol proffesiynol yn ystod mis Mai yn dilyn gwyliau Pasg hwyr. Lleolir yr ysgol brif ffrwd Gymraeg yng Nghorllewin Cymru. Ysgol wledig gyda dros gant o ddisgyblion yn yr ysgol (Estyn 2018). Yn ystod y profiad arsylwi gosodwyd mewn dosbarth cymysg lle addysgir blwyddyn dau a blwyddyn tri. Fodd bynnag, oherwydd dewis cyfnod penderfynwyd dewis disgybl ffocws o flwyddyn tri.

Yn ystod y gwaith ymchwil, byddai'r disgyblion yn eistedd y profion cenedlaethol, ynghyd a gwyliau diwedd Mai a dydd Llun gwyl y banc. Ychwanegwyd at amser lle na ddysgir y disgybl wrth i'r dosbarth ymweld a Gwersyll yr Urdd Llangrannog am dridiau. Dioddefa'r disgybl ffocws o 'nystagmus albinism'. Ychwanegir at anabledd y disgybl gan i'r disgybl hefyd fod yn dioddef o 'photophobia' sydd yn effeithio ar sut mae'r corff a'r llygaid yn delio a golau, megis yr haul. Dywedir gan Haefemeyr, Kind a LeRoy (1989) i'r cyflwr yn effeithio ar glyw a llygiad y disgybl sydd hefyd yn effeithio ar gydbwysedd, sensitifrwydd llygaid i olau ynghyd a phroblemau gyda symudedd a chydbwysedd y disgybl. Oherwydd ei anghenion mae gan y disgybl gynorthwydd un i un llawn amser yn gweithio ar y cyd gyda arbenigwyr sydd yn ymweld yn reolaidd o ran gwersi 'braille' a chynorthwydd symudedd a chydbwysedd. Oherwydd anghneion y disgybl, mae'r disgybl yn deilwng o gant y cant o amser ychwanegol wrth eistedd y profion a chyfyngwyd hyn yn ystod y profiad i arsylwi ymhellach ar y disgybl yn ystod yr wythnos, gan ei fod hefyd yn deilwng o doriadau cyson o'r profion.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r dysgu, defnyddia'r disgybl dyfais o'r enw 'Prodogy' sydd yn chwyddo testun, ynghyd a dyfais o amgylch gwddf yr athro er mwyn i'r disgybl fedru clywed cyfarwyddiadau'r athro.

Manteiswyd ar gyfnod yn Llangrannog er mwyn trafod gyda'r disgybl am ei hoffter o ddysgu ynghyd a chyfle i arsylwi ar y disgybl tu allan i furiau'r ysgol.

Dull casglu data.

Prif ffocws casglu data ar gyfer y gwaith ymchwil yma yw'r dull mosaic. Datblygwyd y dull yn ol Clark a Moss (2017) a Rinaldi (2004) gan ysgolion Reggio Emilia sydd a'r weledigaeth bod gan ddisgyblion y gallu i fedru esbonio yr hyn sydd yn effeithio

arnynt o ran addysgu a pherythnyas gydag athro a disgyblion eraill. Dyweir gan Rinaldi (2004) i'r dull ddatblygu'r methadoleg er mwyn sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei glywed er mwyn cynorthwyo gyda datblygiad addysg disgyblion. Adlewyrcha hyn waith Clark a Moss (2017) lle dywedir bod disgyblion yn arbenigwyr ar ei bywydau ei hunain, a dylai hyn gael blaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau gan oedolion sydd yn effeithio arnynt. Rhennir y dull moseig yn ddull o drafodaeth, creu map meddwl, tynnu lluniau, arsylwadau ac esiamplu o waith. Dywed gan Clark a Moss (2017) i'r dull moseig gael ei rannu i dair rhan, lle rhoddir cyfle i'r oedolion a disgyblion i gasglu gwybodaeth. Er mwyn sicrhau gweledigaeth, anghenion ac awydd y disgybl am addysg. Ar gyfer y gwaith ymchwil defnyddiwyd arsylwadau a thaith dysgu. Dylinir hyn lle tynnir y wybodaeth o'r arsylwadau ynghyd a thrafodaeth gyda'r athrawes ynghyd ac esiamplau o waith er mwyn penderfynnu a'r y camau sy'n dilyn.

Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, bwriedir defnyddio canllawiau BERA (2018) gan sicrhau ysgol nac hefyd y disgybl yn medru cael ei adnabod. O ganlyniad yn ystod yr aseiniad, cyfeirir yr ysgol fel 'ysgol A' a chyfeirir at y disgybl mewn enw 'disgybl A'. Yn ychwanegol at hyn, byddai'n rhaid sicrhau caniatad oddi-wrth rieni'r disgybl ynghyd a chaniatad oddi-wrth y mentor dosbarth trwy lofnodi llythyr sydd yn esbonio'r broses. Wrth ymgyrryd a gwaith sydd yn gysylltiedig a disgyblion, dylid esbonio bod gan y cyfranogwyr yr hawl i dynnu allan o'r gwaith ymchwil ar unrhyw adeg heb roi rheswm, sydd yn cydymffurfio a chanllawiau BERA (2018) a chanllawiau ymchwil y Brifysgol. Ymhellach, wrth ddilyn canllawiau BERA (2018) a deddf amddifyn data, dylid sicrhau cyfrinachedd a bwriedir cadw arsylwadau yn ddi-enw a defnyddio disgybl A ar bob dogfen a fydd yn cael ei ddefnyddio yn yr aseiniad.

Dywed Baird (2013) bod gan ddisgyblion yr hawl a'r wybodaeth i fedru esbonio yr hyn sydd yn effeithiol iddynt wrth helpu iddynt ddysgu. Clyma hyn a saith nod craidd hawliau plant UNCRC (2005) lle dywedir bod yr hawl gan blant i fod yn ran o benderfyniadau sydd yn effeithio arnynt. Ymhellach, gwelwyd bod gan Lywodraeth Cymru (2015) gymhelliant i ddefnyddio dulliau blentyn ganolog ymhob ysgol, gan sicrhau i lais y disgybl gael ei ystyried trwy ddefnyddio dulliau megis y proffil un tudalen. Dywed Clark a Moss (2017) nad yw defnyddio dulliau traddodiadol o gyfweld disgyblion yn ddigonol nac yn ddigon blentyn ganolog ar gyfer sicrhau bod llais y disgyblion yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch a'i addysg. Gwelwyd bod hyn yn effeithiol wrth gasglu tystiolaeth ac arsylwi'r disgybl. Esbonir gan Clark a Moss

(2017) i ddulliau gorffennol arsylwi sichrau nad yw llais y disgyblion yn cael ei golli gydag llais pwerus oedolyn. Dywed Clark a Moss (2017) i'r dull mosaig gyfuno dulliau arsylwi, adborth oddi-wrth y disgybl, casglu tystiolaeth wrth ddefnyddio camera a lluniau a dynnwyd gan y disgybl yn ddull effiethiol o gasglu barn yr addysg o'i safbwynt. Cytuna Llywodraeth Cymru (2008) gan bod defnyddio arsylwadau yn ganllaw ar gyfer cynorthwyo athrawon i fedru cynllunio cwricwlwm sydd yn ategu anghenion y disgybl. Ymhellach dywed Llywodraeth Cymru (2008), Baird (2013) a Clark a Moss (2017) bod arsylwi a chasglu tystiolaeth o waith disgyblion yn medru amlygu gwendidadu a chryfderau'r disgyblion gan bwysleisio ar diddordebau'r disgyblion. Cynorthwya hyn i addysgwyr fedru cynorthwyo disgyblion yn y camau datblygiad nesaf yn ei addysg. Fodd bynnag, dywed Punch (2002) i'r dull fod yn aneffeithiol gan ei fod yn canolbwyntio gormod a'r lais y disgybl yn hytrach na'r hyn sydd angen ar addysgwyr, ac i broses mosaig ganolbwyntio yn ormodol ar lais y disgybl. Ymlyga hyn ymhellach, lle dywedir bod y dull yn medru cymryd llawer o amser er mwyn cyflwani'r gwaith.

Edrychir ar y disgyblion trwy ddefnyddio'r model ASG, sydd yn edrych ar agweddau'r disgybl yng nghydestun agwedd y disgybl tuag at addysgu, sgiliau ynghyd a gwybodaeth y disgybl er mwyn cynorthwyo gyda chasglu a dadansoddi'r data a gasglwyd. Dywed Nottingham (2016) er mwyn bod yn ddysgwr llwyddiannus dylai disgyblion fod yn ymwybodol o'i ymagweddau megis awydd i ddysgu, gwytnwch ynghyd a datblygu sgiliau megis rhesymu a sgiliau cydweithio. Ychwanega Nottingham (2016) bod angen rhain a'r ddisgyblion er mwyn bod yn ddysgwyr uchelgeisiol. Cysyllta hyn ag awgrymiadau Donaldson (2015) ac i ddatblgyu gwytnwch a'r awydd o ddysgu er mwyn datblgyu disgyblion sy'n awyddus a mentrus. Trwy ddilyn y dull yma dywed Nottingham (2013) i addysgwyr gynorthwyo disgyblion i fod yn ddysgwyr sydd yn ymwybodol o'i anghenion ac i gwblhau camau sydd angen er mwyn cyrraedd y nod. Dywed i'r dull ASG, ddatblgyu iaith ymagwedd disgyblion er mwyn iddynt fedru trafod a siarad am yr hyn sydd angen arnynt ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Prif fantais defnyddio'r modelau ASG a'r model mosaig yw'r ffaith ein bod yn medru cael cip-olwg a'r farn y disgybl o safbwynt addysgol a holistaidd. Casglwyd samplau o waith yn ystod cyfnod PAP ar gyfer ei ddefnyddio yn yr aseiniad. Casglwyd tasgau rhifedd a iaith, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a cherddoriaeth. Yn ychwanegol bwriedir defnyddio profiadau o Llangrannog er mwyn ystyried lles y disgybl.

Dadansoddiad o'r dysgwr.

Yn ystod y cyfnod arsylwi, bu profion cendlaethol. Yn ystod yr wythos yn arwain i fyny (wythnos arsylwi) tuag at y cyfnod, cafwyd cyfle i ddod i adnabod y disgybl trwy gael sgwrs anffurfiol wrth ymgymryd a thaith dysgu'r disgybl. Gwelwyd yn fuan i'r disgybl adnabod yr hyn oedd angen arno er mwyn ei gefnogi yn yr ysgol. Wrth ddefnyddio'r model ASG, gwelwyd bod gan y disgybl ymagwedd a'r chwilfrydedd i ddysgu. Dywedodd wrthyf (gweler atodiad nodiadau arsylwi) ei fod yn mwynhau yn yr ysgol, bod ganddo'r gefnogaeth a'r anogaeth a oedd angen arno ar gyfer llwyddo yn yr ysgol. Esboniodd ei fod yn hapus yn yr ysgol gyda llawer o ffrindiau, ond nid oedd yn hoffi chware pel droed gyda'i ffrindiau am nad oedd yn gallu ffocysu ar y bel. Fodd bynnag wrth drafod ac edrych ar proffil un tudalen y disgybl. Cafodd ei ddrisgrifio ei fod yn dda am redeg gan y disgyblion eraill, ac o ganlyniad iddo hoffi rhedeg. Dywedodd ei fod yn hoffi cwmni ei hun amser chwarae yn yr ysgol. Gan nad oedd dyn wedi ei ddysgu o'r blaen yn yr ysgol, mynegodd y byddai'n edrych ymlaen i mi ei ddysgu yn y dosbarth. Oherwydd ei gyflwr mae gan y disgybl gynorthwydd un i un llawn amser sydd yn ei gynorwytho gyda defnyddio sgiliau defnyddio peiriant 'prodogy' ac yn sicrhau bod dyfeisiadau clyw yn gweithio yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Gyda'r cymorth hyn, mae disgybl A yn medru cymryd rhan cyflawn yn y dosbarth. Fodd bynnag, oherwydd cefongaeth ychwanegol mae'r disgybl A yn colli llawer o amser addysgu oherwydd ymweliadau oddi-wrth arbenigwyr megis braille a symudedd. Yn ystod yr wythnos profion, lle byddwn yn dysgu'r wythnos lawn cyntaf, nid oeddwn wedi medru casglu tystiolaeth cyflawn o'i waith gan ei fod yn deilwng o amser ychwanegol i gwblhau'r profion. Wrth sgwrsio gyda'r disgybl yn yr ardal allanol, dywedodd fod ganddo'r hoffter o bwnc mathemateg. Adlewyrcha hyn drafodaeth gyda'r mentor dosbarth, lle dangoswyd llyfrau gwaith mathemateg y disgybl, ynghyd a thrafodaeth lle bu'r disgybl yn y flwyddyn ganlynol (blwyddyn dau) yn esbonio 'pythagorus' a rhifau gwraidd sgwar i ddisgyblion blwyddyn chwech. Wrth edrych ar ddogfennau Llywodraeth Cymru (2014) y fframwaith llythrennedd a rhifedd gwelir bod hyn yn ddisgwyliedig i waith disgyblion sydd yn astudio TGAU. Wrth ddadansoddi taflen 'Incerts' (gweler atodiad

2) y disgybl i gymharu gyda gweddill dosbarth blwyddyn tri, iddo fod yn fwy abl a thalentog yn mathemateg. Wrth ddatblygu'r sgwrs ymhellach gwelwyd bod gan disgybl A hoffter tuag at y rhan fwyaf o'r pynciau. Arsylwias fod gan y disgybl iaith goeth a defnydd da o dreigladau ac idiomau yn y Gymraeg. Mewn gwerau lle dysgwyd ansoddeiriau i ddisgyblion blwyddyn tri, gwelwyd bod gan y disgybl iaith o safon. Er hyn, oherwydd ei gyflwyr sydd yn effeithio ar y ffordd mae'n ffocysu yn y dosbarth, nid oes swmp o waith yn ei lyfr. Fodd bynnag, wrth ystyried a chymharu ar raglen 'Incerts' gwelwyd nad oes llawer o wahaniaeth rhyngddo a disgyblion eraill yn y dosbarth ac i'r disgybl fod yn gymharol a lefel dau yn yr iaith Saesneg a lefel dau cryf yn yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth gyda'r ymgymhorydd ynghyd a'r disgybl i hyn ddeillio i'r elfen darllen gan iddo ddefnyddio 'braille' ar gyfer darllen yn Saesneg. Ymhellach, wrth drafod gyda'r disgybl, dywed nad oedd yn hoff o ddarllen yn y Gymraeg na'r Saesneg, ac iddo geisio ei osgoi gan nad oedd yn dda yn darllen. Adlewyrcha hyn Beck et. al (2002) lle dywed i ddisgyblion a chymelliant a hunan gred wrth ddarllen nad ydynt am ddewis darllen fel dull o addysgu, ac yn ceisio ei osgoi. Amlygwyd hyn ymhellach wrth drafod gyda rhieni, a fynegodd bryder am safon iaith, llefaredd ac ysgrifenedig y disgybl. Fodd bynnag, dywed y rhieni iddo ddarllen yn dilyn polisi'r ysgol yn nosweithiol, ond nad oedd yn ei fwynhau. Wrth drafod ac edrych ar broffil un tudalen y disgybl adlewyrchwyd hyn yn y drafodaeth a gafwyd gan y rhieni a'r disgybl, gan i ddisgybl A gael traferth yn deall a chlywed synau geiriau. Gwelir hyn yn amlwg wrth gynorthwyo disgybl A mewn sesiynau llythrennau a synau. Fodd bynnag, er gwethaf yr anhawsterau gwelwyd dyfal barhad a'r awydd i lwyddo'r disgybl er mwyn cwblhau'r dasg yn llwyddiannus. Er hyn, mewn gweithgareddau grwp, mae disgybl A yn medru cyfrannu yn llwyddiannus ac yn hollol hyderus i wneud hyn. Amlyga hyn nifer o linynnau blwyddyn tri, yn fframwaith llythrennedd a rhifedd, Llywodraeth Cymru (2014).

Fodd bynnag, dywedodd mae ei gas bwnc oedd cerddoriaeth. Er hyn esboniodd ei fod yn hoffi canu'r piano a chanu yng nghor yr ysgol. Adlewyrcha hyn ym mhroffil un tudalen y disgybl. Esboniodd ymhellach nad oedd yn hoff o'r pwnc ond ei fod yn ceisio ei orau i glas i gwblhau'r tasgau. Er hyn, mewn gwerau lle byddai'r disgyblion yn ymchwilio i gyfansoddwyr clasurol ynghyd a gwerau ddilyniant i werthuso cerddoriaeth, er bod gan y disgybl afael ar erifa gerddorol, gwelwyd nad oedd gan y disgybl yr awydd i lwyddo yn y dasg. Wrth edrych ar lefelau cerddoriaeth, Llywodraeth Cymru (2008) gwelwyd i hyn fod yn gyfateb i lefel un cerddoriaeth. Ar

un adeg, gwelwyd i'r disgybl ddatgan ei fod yn methu gwneud y dasg, a chymerodd gryn berswad i'r disgybl ail gydio yn y dasg. Adlewyrcha hyn drafodaeth a gafwyd gan yr mentor dosbarth i'r disgybl fedru styfnigo os byddai'r disgybl yn ystyried y dasg yn rhy anodd iddo neu allan o'i ddiddordeb. Cysyllta hyn a damcaniaeth Dweck (2017) lle dywedir bod gan ddisgyblion sydd a tueddiad i fod yn fwy abl a thalentog y feddylfryd i roi'r gorau iddi yn hytrach na derbyn bod angen cymorth arno neu gyddafedd bod y cwestiwn yn heriol. Fodd bynnag, y diwrnod canlynol, (gwelwyd nodiadau arsylwi) i'r disgybl ymchwilio i ragor o gyfansoddwyr ar draws y byd ac mi gymerodd gryn falchder iddo wrth esbonio ar lafar o ba wledydd daw'r gyfansoddwyr a sut bu hyn yn effeithio ar y darnau cerddoriaeth a gyfansoddwyd ganddynt.

Tra ar brofiad addysgu, cafwyd cyfle i fynychu Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog, lle bu'r disgybl ynghyd a'r cynorthwydd un i un yn aros am dri diwrnod. Er nad oedd cyfle i arsylwi ar wersi ac edrych ar gynnydd disgybl yn ystod y tridiau, bu hyn yn gyfle i arsylwi a chael trafodaeth bellach ar ymagwedd lles a sgiliau deallusol, cymdeithasol, cyfathrebu a chorfforol y disgybl yn unol a model ASG, Nottingham (2013). Cysylltir ymhellach a chwricwlwm drafft Llywodraeth Cymru (2019) lle dywedir bod cymhelliant, a phwysigrwydd gwytnwch yn allweddol ar gyfer creu dysgwr llwyddiannus. Gwelwyd yn ystod y cyfnod byr yn yr ysgol bod gan y disgybl cymhelliant i lwyddo, a bod ganddo'r meddwl agored i brofi pethau newydd. Ychwanegwyd at hyn wrth arsywli gwytnwch a dyfalbarhad wrth ymgeisio a phrofiadau newydd, sydd yn wrthwyneb i'r hyn a arsylwyd yn ystod gwersi. Gwelwyd yr ymagwedd hyn yn glir wrth dreiluo amser yn Llangrannog. Yn ychwanegol at hyn, gwelwyd bod ganddo agwedd benderfynol ac elfen gystadleuol cryf. Amlygwyd hyn mewn cystadleuaeth ar y wal ddringo, lle iddo orffen yn gyntaf ar nifer o gystadlaethau, ac iddo fod yn benderfynol o lwyddo ymhob un o'r tasgau a roddwyd iddo ar y wal ddringo. Gwelwyd hefyd, mewn tasgau tim, roedd ganddo'r awydd a'r penderfyniad o sicrhau bod y tim yn llwyddo trwy sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda chyd-ddisgyblion. Fodd bynnag, gwelwyd ar adegau, iddo deimlo'n rhwystredig gan nad oedd yn medru clywed cyfarwyddiadau yn glir, gan nad oedd y ddyfais sydd yn cynorthwyo gyda'r clyw yn medru gweithio yn effeithiol yn yr awyr agored. Oherwydd diogelwch y disgybl, bu'n rhaid tynnu'r cynorthwy clyw ar adegau gan ychwanegu at rwystredigaeth y disgybl. Er mwyn goresgyn y broblem byddai'r cynorthwydd neu athro yn sicrhau bod y disgybl yn agos i'r person a oedd yn gyfrifol am y

weithgaredd. Er hyn, arsywlyd arno yn colli cyd-bwysedd ar nifer o adegau sydd yn cyd-fynd ar hyn a welwyd yn ystod sesiynau chwareon a yoga yn y dosbarth. Deillia hyn o'i gyflwr 'nystagmus albinism' lle nad yw'r llygaid yn medru ffocysu, ac yn ol gwefan RNIB (dim dyddiad) i hyn effeithio ar gydbwysedd, gan bod y byd yn ymddangos yn anwastad i'r disgybl gan nad yw'r llygaid yn medru ffocysu. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod yn Llangrannog ni welwyd pryder gan y disgybl i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Cysyllta hyn ymhellach a'r cwricwlwm newydd i Gymru Llywodraeth Cymru (2019) gyda'r elfen lles bod hyn yn hyrwyddo dysgwyr llwyddiannus. Yn ystod gweithgareddau adeliadu tim megis rhaffau isel ac adeiladu lloches, gwelwyd bod y disgyblion eraill yn cymryd tipyn o ofal ohono ac yn sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys. Ymhellach, gwelwyd bod gan y disgybl ddulliau o gyd-weithio gyda disgyblion eraill yn y tim er mwyn sicrhau llwyddiant. Gwelir y cymhelliant a'r elfen gystadlueol a welir yn Llangrannog mewn gwersi yn yr ysgol. Ymhellach, arsywlyd yn yr ysgol bod ganddo gymhelliant i weithio'n annibynnol. Cysyllta hyn ag adroddiad Estyn (2018) lle dywedir i blant mwy abl a thalentog fod yn ddysgwyr hynod o annibynnol. Amlygir hyn gan Warwick a Speakman (2018) lle dyweir ei bod yn medru cymhwyso ei sgiliau a'i haddasu mewn sefyllfaoedd gwahanol.

Wrth ddadansoddi gwaith a gwybodaeth disgybl A, ac wrth ddadansoddi'r gwaith, rhaid ystyried taw prin iawn yw'r dystiolaeth gan i'r profion cenedlaethol, ynghyd ag ymweliadau cyson gan arbenigwyr i'w weld wedi cyfyngu ar yr amser a dreulwyd yn dysgu. Fodd bynnag, yn ystod y gwersi, byddai'r disgybl yn barod i roi adborth ar beth fedrwn ei wneud ar gyfer ei helpu. Oherwydd y cyflwr, defnyddia'r disgybl lyfrau ysgrifennu a ddefnyddir yn y cyfnod sylfaen er mwyn cynorthwyo gyda'r ysgrifennu. Gwelwyd yn y samplau gwaith ac yn ei lyfrau mathemateg bod gan y disgybl gryfder yn y pwnc. Gwelwyd bod y disgybl wedi cwblhau pob tasg, gan gynnwys heriau ychwanegol a osodwyd gan yr athrawes. Ymhellach, gwelwyd hyn yn y wers lle fy arsylwyd gyda'r mentor gan iddi argymhell i mi gynnig tasg iddo a fyddia'n ei herio. Gweler o'r atodiad iddo gwblhau'r dasg yn llwyddiannus heb gymorth ychwanegol, fodd bynnag ni chafodd amser i gwblhau'r her ychwanegol.

Dangosa'r disgybl hoffter tuag at ddefnyddio technoleg gwybodaeth. Esboniodd ar y daith dysgu byddai'n rhaid i mi ddefnyddio ffont tua tri-deg chwech er mwyn iddo ei weld gan sicrhau nad oedd y cefndir yn wyn gan y byddai hyn yn achosi problemau iddo. Gweler atodiad lle defnyddiwyd elfen o'r cymhwysedd digidol

creu bas data yn seiliedig ar y thema ffrwythau. Oherwydd anghenion y disgybl, bu'n rhaid rhag-baratoi cardiau gwybodaeth iddo er mwyn mewnbynnu gan i waith ymchwil ar y system 'prodogy' fod yn gymleth. Fodd bynnag, oherwydd problemau gyda'r system, bu'n rhaid cwblhau'r tasg bas data yn Saesneg gan nad oedd y system 'prodogy' yn adnabod y Gymraeg. O ganlyniad, oherwydd gwendid y disgybl yn yr iaith Saesneg, gwelwyd dyfalbarhad ac ymagwedd y disgybl tuag at y dysgu a'r pwnc yn dirywio.

Camau Ymlaen.

Dilynir casglu'r a dehogli'r data ynghyd a sgysiau gan arbennigwyr ar gyfer cynllunio a chefnogi camau nesaf athro er mwyn sicrhau bod y disgybl yn medru sirhau cynydd yn y pynciau, gan hefyd ystyried cefnogi a datblygu lles. Wrth drafod cefnogaeth a chmau tuag at y dyfodol bwriedir trafod sut i gefnogi'r disgybl mwy abl a thalentog yn yr ystyr mathemateg, gan hefyd cefnogi a datblygu strategethau a fydd yn cefnogi disgybl A i wneud cynnydd yn y meusydd iaith, gan ddefnyddio'r dechnoleg sydd ganddo er mwyn ei gefnogi yn y dosbarth. Bwriedir tynnu ar waith ymchwil gan arbennigwyr, ymwelwyr ynghyd a darllen ychwynegol.

Wrth ystyried anghenion disgybl A, dylid ystyried yr adnoddau sydd angen arno er mwyn sicrhau mynediad at y cwricwlwm. Cysyllta hyn ac awgyrmiadau Donaldson (2015) ar gyfer sicrhau mynediad teg i'r cwricwlwm ac ymrywmriad y Llywodraeth i ddechrau teg ar gyfer pob plentyn. Gwelir dogfen Llywodraeth Cymru (2016) sy'n rhoi cyfrifoldeb a phwyslais ar ysgolion i sicrhau bod disgyblion yn medru cael mynediad at y cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau hyn. Defnyddir taflenni gwaithar hyn o bryd wedi chwyddo i A3 er mwyn cynorthwyo'r disgybl, er mwyn sicrhau ffont mwy (o leiaf ffont maint 36. Fodd bynnag, yn dilyn darllen cyngor gan yr RNIB (dim dyddiad) nid yw hyn yn helpu sgiliau canolbwyntio'r disgybl. Trafodir ymhellach gan yr athrawes ymgymhorol ynghyd a gwaith ymchwil defnyddio'r adnodd 'Prodogy' sydd ar gael at ddefnydd y disgybl yn ystod gwersi. Dywedir gan Vezinaw et.al (2019) i'r dyfais fedru cysylltu a'r we. Arsylwyd ar hyn yn ystod y profion cenedlaethol, lle defnyddia'r disgybl y ddyfais i dderbyn mynediad at HWB. Gan bod y dyfais wedi ei deilwra ar gyfer anghenion y disgybl, dywed Vezinaw et. al (2019) i hyn sicrhau bod popeth a ddangosir ar sgrin y ddyfais wedi ei deilwra

yn arbennig i'r defnyddiwr, gan gynnwys maint ffont a chefnidir perthnasol. Dilyna hyn drafodaeth gan yr athrawes ymgymhorol. Er mwyn sicrhau mynediad cyfartal at y cwricwlwm, bwriedir defnyddio'r ddyfais ynghyd a HWB i ddanfon pwerbwyntiau, cyflwyniadau a thaflenni gwaith ar ebost ysgol y disgybl, ar gyfer ei agor ar y ddyfais. Sicrha hyn yn ol Huurneman et. al (2013) gyfle i'r disgybl gael mynediad at y cwricwlwm. Ychwanega ymhellach gan Vezinaw et.al (2019) i'r ymyrraeth sicrhau bod sgiliau canolbwyntio y disgybl yn gwella, gan iddo fedru darllen a gwrando (yn yr iaith Saesneg) a'r gyflymder ei hun. Cytunwyd ymchwil gan Huurneman et. al (2013) wrth ddefnyddio'r dull yma yn yr ystafell ddosbarth i hyn yn helpu sgiliau canolbwyntio'r disgybl yn y dosbarth. Ychwanegir gan y RNIB (dim dyddiad) a Vezinaw et.al (2019) wrth ddefnyddio'r ddyfais yn rheolaidd yn y gwersi, i feithrin sgiliau technoleg gwybodaeth cryf, gan bod rhaid dysgu sut i dderbyn mynediad at ebyst, a defnyddio'r dechnoleg er mwyn ei gynorthwyo. Cysyllta hyn a cymhwysedd digidol Donaldson (2015) ar gyfer defnyddio dyfeisiadau digidol ar gyfer cysylltu. Fodd bynnag, er i hyn fedru cynorthwyo'r disgybl dderbyn mynediad at y cwricwlwm, dylid, wrth ystyried anghenion y disgybl ystyried sgiliau a lefelau darllen y disgybl a defnyddio amrywiaeth o strategethau i'w gynorthwyo.

Wrth ystyried y drafodaeth a geir gyda'r disgybl, ynghyd a thystiolaeth o'r proffil un tudalen a 'Incerts' i'r disgybl gael anhawsterau ynghyd a ddifyg hyder gyda synau geiriau wrth ddarllen yn enwedig Saesneg. Amlyga hyn ymchwil gan Karmei-Hanna a Ricci (2015) i ddisgyblion sydd a nam ar glyw a llygaid fethu cysylltu swm gair gyda symudiadau'r geg. Ymhellach, dywed gan Hannan a Ricci (2015) i hyn effeithio ar ymgysylltiad, diddordeb a ffocws y disgybl yn y pwnc. Ychwanegwyd at yr anfantais gan i'r disgybl fod yn flwyddyn tri, ychydig misoedd ers i'r iaith gael ei gyflwyno iddo yn yr ysgol. Er mwyn cynorthwyo'r disgybl gyrraedd safonau disgwylidig a chyrraedd safonau a lefelau disgwylidig rhaglen astudio Saesneg, Llywodaeth Cymru (2015) i ddeall a defnyddio gwybodaeth ffonig. Awgryma Sacks a Wollfe (2006) ddefnyddio strategaeth ginesthetic, sydd yn addas ac yn cefnogi disgyblion sydd a nam ar glyw a llygaid. Ymhellach, cefnoga Karmei-Hannan a Ricci (2015) a Catts a Kamhi (2005) yr hyn a ddywed gan Sacks a Wollfe (2006) i'r dull ginesthetig gynorthwyo disgyblion i wella sgiliau datgodio geiriau a gwybodaeth ffoneg disgyblion. Gwelwyd ar arferion effeithiol Estyn (2018) i ysgol ddefnyddio'r strategaeth ginesethig ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion arbennig. Dywed yr ysgol i hyn gynorthwyo disgyblion fedru gwella ac ymarfer ei sgiliau ffoneg, ac o

ganlyniad gwella sgiliau llythrennedd gan gynnwys darllen. Amlyga Catts a Kamhi (2005) i'r dull weithio yn effeithiol drwy gyfuno braille er mwyn cynorthwyo'r disgybl fedru cysylltu'r swm gyda'r teimlad.

Awgryma O' Connor (2014), a Catts a Kamhi (2005) defnyddio strategaeth darllen 'Jelly and Bean' ar y cyd gyda chardiau 'dolch' lle defnyddir cyfuniad o symudiadau cinesthetic, braille ag offer ffoneg sydd yn defnyddio technoleg gwybodaeth sydd yn medru adnabod cryfderau a gwendidau'r disgybl wrth ddatcodio geiriau a defnydd o ffoneg ac yn cynorthwyo'r disgybl gan ddefnyddio nifer o strategethau i gefnogi'r disgybl. Gellir cyfuno'r weithgaredd ymhellach ar draws y dosbarth er mwyn cynorthwyo disgyblion eraill yn y dosbarth. Fodd bynnag, dywed gan McLinden a McCall (2002) er i'r dull fedru cynnig cymorth gyda theori geiriau er mwyn medru cynorthwyo gyda darllen ac yn ychwanegol helpu gyda sgiliau ysgrifennu Saesneg, nid yw ar bob adeg yn cynorthwyo'r disgyblion i adnabod synau ar ddiwedd geiriau (e.e. geiriau sydd yn gorffen gyd ing). Ymhellach, dywed gan Hannan a Ricci (2015) i'r dull weithio yn effeithiol ond iddo gymryd llawer o amser yn y dosbarth er mwyn ei gyflwyno, ac mae'r dyfeisiadau yn medru bod yn ddrud. Anghytuna Sacks a Wollfe (2006) a'r hyn a ddywedir gan McLinden a McCall (2002) a Hannan a Ricci (2015) i ddeng munud dyddiol fedru bod yn effeithiol ar gyfer disgyblion sydd a nam clyw a llygaid. Ychwanegwyd ymhellach gan i'r strategaeth darllen 'Jelly Bean' ar gyfer disgyblion dall gyda'r cyfuniad o'r strategethau arall fedru ail gydio yn nychymyg a mwynhad disgyblion yn y darllen. Dywed gan Hannan a Ricci (2015) a Sacks a Wolffe (2006) i'r strategethau hyn brofi llwyddiant i ddisgyblion ymchwil ac i hyn gynorthwyo disgyblion gyrraedd targedau darllen ac adnabod synau, gwybodaeth o lythrennau a synau. Ymhellach i hyn fedru sicrhau i'r disgybl wella hunan hyder a lles wrth ddarllen yn y Saesneg.

Adlewyrchir ymhellach ar waith, trafodaeth, llyfrau a thystiolaeth 'Incerts' gweldwyd bod y disgybl yn fwy abl a thalentog (MATH) yn y pwnc mathemateg. Fodd bynnag, oherwydd ei gyflwr, mae'n ddibynnol ar y cynorthwydd er mwyn ei gefnogi a'i gynorthwyo i ganolbwyntio. Er mwyn herio'r disgybl MATH fel a noda gan Estyn (2018) bwriedir defnyddio strategaeth lle defnyddir y staff cynorthwyol i herio ac ymestyn sgiliau mathemategol y disgybl. Gellir hyn olygu cysylltu gyda'r ysgol uwchradd lleol, neu defnyddio disgyblion hyn yr ysgol er mwyn medru cyflawni gwaith heriol, ac i sicrhau nad yw'r disgybl yn ymsgylltiedig a'r pwnc heb ddiflasu. Ymhellach, bydd hyn yn datblygu gwytnwch a dyfalbarhad y disgybl, gan bod hyn yn

amlygu pan mae'r disgybl yn cael anhawster mewn pynciau eraill. Cysyllta hyn a theori Dweck (2017) lle dywedir i ddisgyblion nad ydynt yn cael ei herio yn ddigonol i wrthod a pheidio cymryd rhan mewn tasgau nad ydynt yn teimlo'n gyffyrddus yn ei gwneud. Gwelwyd yn ol Estyn (2018) bod hyn yn strategaeth effeithiol ar gyfer cefnogi a herio disgyblion MATH. Strategaeth arall a ellir ei gyfuno yw defnyddio'r disgyblion MATH fel arweinwyr go gyfer a hybu sgiliau a gwybodaeth disgyblion eraill dros gyfnod o amser yn yr ysgol. Gwelwyd arfer dda ar Estyn (2012) lle bu hyn yn strategaeth llwyddiannus, gyda disgyblion eraill yn gwneud cynnydd. Cysyllta hyn gyda theori Vygotsky yn ol Pound (2006) sy'n amlygu bod y disgyblion yn medru dysgu oddi-wrth cyfoedion ac mewn dull gymdeithasol. Ymhellach, dywedir i'r disgyblion MATH yn ol Estyn (2012) ddatblygu rhagor o sgiliau gwytnwch, ynghyd a sgiliau dyfalbarhad ac arweinyddiaeth.

Casgliad

Oherwydd diffyg amser i gasglu tystiolaeth digonol oherwydd Profion Cenedlaethol, natur anghenion y disgybl, yr ymwelwyr sydd yn cynorthwyo'r disgybl ynghyd ac ymweliad a Gwersyll Llangrannog a chyfnod absanoldeb nid oedd y data a gasglwyd yn cyflawn ac yn swmpus ac yn rhoi'r darlun llawn o'r disgybl. Fodd bynnag, wrth ddilyn y dull mosaic, teimlir bod yna ymgysylltu ac adnabyddiaeth o'r disgybl wrth drafod gwaith gyda'r disgybl a'r mentor dosbarth, diddordebau, yr ymatebion ac hefyd y cymhelliant o ddysgu a wneud ei orau ymhob tasg. Dangosodd y drafodaeth a'r taith dysgu bod y disgybl yn medru adnbaod ei wendiadu a'i gryfedrau ac yn medru esbonio hynny'n glir a rhoi arweiniad ar sut y byddai modd i'w gynorthwo. Er hyn, gwelwyd ar adegau i'r cymhelliant yn enwedig wrth ddarllen Saesneg a gwers Gerddoriaeth wanychu. Bu profiad o gasglu data, asesu a defnyddio 'Incerts' yn brofiad defnyddiol ar gyfer yr aseiniad ac fel dechreuad gyrfa fel athro. Cynarthwya hyn fel a nodir gan Llywdoraeth Cymru (2015) i'r dulliau asesu cynorthwyo'r athro er mwyn sicrhau cynydd a chynllunio gweithgareddau pwrpasol ac wedei ei gwahanaiethu'n addas ar gyfer y disgybl. Wrth adfyfyrio ar y profiad o gasglu data, i hyn fod yn effeithiol ac yn baratoad ar gyfer y maes addysg. O safbwynt bersonol, creda'r awdur wrth ddewis disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwaengol nad oedd yn ymwybodol ohonynt yn ddiddorol ac yn heriol ac yn gwthio'r athro i ymchwilio ymhellach i strategaethau gwahanol ar gyfer cynorthwyo'r disgybl i wneud cynnydd.

(4566)

Rhestr Cyfeirnod.

Bakarman, A. (2011). ATTITUDE, SKILL, AND KNOWLEDGE: (ASK) A NEW MODEL FOR DESIGN EDUCATION. *Proceedings of the Canadian Education Association*, 2(1), pp.18-20.

BERA (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research, fourth edition (2018)* | BERA. [ar-lein] Bera.ac.uk. Ar gael ar: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018> [Gwelwyd 30 Mai 2019].

Catts, H. and Kamhi, A. (2005). *The connections between language and reading disabilities*. New York: Psychology Press.

Clark, A. (2005). Ways of seeing: using the Mosaic approach to listen to young children's perspectives. *Children's Perspectives on Early Childhood*, pp.29-49.

Clark, A. and Moss, P. (2017). *Listening to Young Children, Expanded Third Edition: A Guide to Understanding and Using the Mosaic Approach*. 3rd ed. Philadelphia: National Children's Bureau.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. [ar-lein] Gweddill.gov.wales. Ar gael ar: <https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> [Gwelwyd 23 Mai 2019].

Dweck, C. (2017). *Mindset*. London: Robinson.

ESTYN (2018). *Cefnogi disgyblion mwy abl a thalentog - Sut orau i herio a meithrin disgyblion mwy abl a thalentog: Cyfnodau allweddol 2 i 4* | Estyn. [ar-lein] Estyn.llyw.cymru. Ar gael ar: <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cefnogi-disgyblion-mwy-abl-thalentog-sut-orau-i-herio-meithrin-disgyblion-mwy> [Gwelwyd 30 Mai 2019].

Estyn (2018). *Dysgu gweithredol a thrwy brofiad*. [ar-lein] Estyn.gov.wales. Ar gael ar:

https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Estyn%20Active%20and%20experiential%20learning_W_Accessible.pdf [Gwelwyd 23 Mai 2019].

Haefemeyer, J., King, R. and LeRoy, B. (1989). *Facts about albinism*. Minneapolis, Minn. (Box 485 UMHC, the University of Minnesota Hospital and Clinic, 420 Delaware St. S.E., Minneapolis, Minn. 55455): International Albinism Center.

Huurneman, B., Boonstra, F., Verezen, C., Cillessen, A., van Rens, G. and Cox, R. (2013). Crowded task performance in visually impaired children: magnifier versus large print. *Graefe's Archive for Clinical and Experimental Ophthalmology*, 251(7), pp.1813-1819.

Jellyandbean.co.uk. (2019). *Jelly and Bean | Search Results blind*. [ar-lein] Ar gael ar: <https://www.jellyandbean.co.uk/blog/?s=blind> [Gwelwyd 30 Mai 2019].

Kamei-Hannan, C. and Ricci, L. (2015). *Reading connections. Strategies for teaching student with visual impairments*. New York: AFB Press.

Llywodraeth Cymru (2015). *Cerddoriaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru*. [ar-lein]

Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/07/65/fa/fd/073c4754840aaa45b3c6aec0/cerddoriaeth-yng-cwricwlwm-cenedlaethol-cymru.pdf> [Gwelwyd 30 Mai 2019].

Llywodraeth Cymru (2015). *Rhaglen Astudio ar Gyfer Mathemateg. Cyfnod 2-4*. [ar-lein] Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/6c/f9/0e/f3/5f5c4e6381d915e48d080dd1/rhaglen-astudio-ar-gyfer-mathemateg.pdf> [Gwelwyd 30 Mai 2019].

Llywodraeth Cymru (2015). *Rhaglen Astudio Saesneg*. [ar-lein] Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/a5/39/a9/6e/db44d10978475866a7156ac/rhaglan-astudio-ar-gyfer-saesneg.pdf> [Gwelwyd 30 Mai 2019].

Llywodraeth Cymru (2019). *CANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT MAES DYSGU A PHROFIAD Iechyd a Lles*. [ar-lein] Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022: Ebrill 2019. Ar gael ar: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/a7/19/ce/53/fa2142f4a02c55b49a800f63/canllawiau-statudol-drafft-iechyd-a-lles.pdf> [Gwelwyd 23 Mai 2019].

Llywodraeth Cymru (2019). *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion*. [ar-lein] Gweddill.gov.wales. Ar gael ar: <https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/160318-inclusion-and-pupil-support-cy.pdf> [Gwelwyd 30 Mai 2019].

Llywodraeth Cymru (2019). *Person-centred practice in education: a guide for early years, schools and colleges in Wales*. [ar-lein] Gov.wales. Ar gael ar: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-01/person-centred-practice-in-education-a-guide-for-early-years-schools-and-colleges-in-wales.pdf> [Gwelwyd 30 Mai 2019].

Llywodraeth Cymru. (2015). *Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg*. [ar-lein] Ar gael ar: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/7e/91/e7/b2/121d4a3e9eaab87a7b2fc5f1/cymraeg-rhaglen-astudio-cyfnodau-allweddol-2-4.pdf> [Gwelwyd 30 Mai 2019].

McLinden, M. and McCall, S. (2002). *Learning through touch*. London: David Fulton Publishers.

Nottingham, J. (2013). *Encouraging Learning*. Oxon: Routledge.

Pound, L. (2006). *How children learn*. London: Practical Pre-School Books.

Punch, S. (2002) 'Research with Children: The Same or Different From Research With Adults?' *Childhood* 9 (3): 321-341.

Rinaldi, C. (2004). The RELATIONSHIP Between DOCUMENTATION and ASSESSMENT. *The Quarterly periodical of the North American Reggio Emilia Alliance*, 11(1), pp.1-4.

RNIB (dim dyddiad) Understanding Nystagmus. RNIB.

Sacks, S. and Wolffe, K. (2006). *Teaching social skills to students with visual impairments*. New York: AFB Press.

Veizinaw, M., Matchinski, T. and Elias, L. (2019). Preferences and Reading Performance of People with Low vision using a portable electronic magnifier versus a smartphone magnification app. *Optometry & Visual Performance*, 7(1), pp.53-59.

Warwick, I. and Speakman, R. (2018). *Redefining More Able Education*. 1st ed. Oxon: Routledge.

Atodiadau:

 **Prifysgol Cymru**
University of Wales
Ynys Môn / Anglesey

 **Yr Athrofa**
Institute of Education
Llŷdian / Llanidloes

Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chymnydd Disgyblion', Haf 2019.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwyr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Proffiad Addysgu Profesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu armynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwyr nodi manau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnydd a datblygiad y dysgwyr.


Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwyr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwyr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyrwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

ENWR MYFYRWYR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCW OS GWELWCW YN DDA):

DYLAN DAVIES



Date	Book and Page Number	Remarks
9.3.19	Anghenfil a Jôc	
11.3.19	Anghenfil a Jôc	Wedi darllen 1-20 yn iawn. JJ.
22.3.19	Anghenfil a Jôc	
28.3.19	Dim llyfr Cynreag!	
5.4.19	Anghenfil a Jôc	P. 20-24. Difficulty with a few words. JJ.
12.4.19	Anghenfil a Jôc	listened to Han read to page 22. Some difficulty with challenging words. Could do with practising again. Ethel

Date	Book and Page Number	Remarks
3.5.19	Hwyl yn y Gra.	Per Hwyl's 20.10.19. Llyfr 10.10.19. End all book. 10.10.19. 10.10.19.
10.5.19	Hwyl yn y Gra	wedi darl dda cr
10.5.19	Anbur Carlor Ci	
15.5.19	Anbur Carlor Ci	wed yn d
	Pen-blwydd Ethan.	
16.5.19	Pen-blwydd Ethan.	wed T. 1

Dyddiau Mai 16

Nôdym chwiliwch i eiliau -
ansoddeipiau waw!
ysgrifennwch frawddeg yn cynnwys
y gair.

Mae Kaleb yn ifanc ac yn hysgu
mae Samu dadi yn drefwll (1)
fawn.
mae Miss Tanaka yn gartrefu
ac yn hysgu.
mae Mr Davies yn neis.
mae ysgol ffurfiach yn is digg.

Her: Defnyddio ansoddeir i ddisgrifio ffynth.

Prachse dot 4 5 signs

He was upon
the table.

He said a funny word. These
are my shoes.

These are your glasses. da iawn

whose is this bag? ✓

cannot

I cannot wait to go to cooking
club. A grasshopper cannot fly.
I had some sweets yesterday.

1 6 . 5 . 1 9

Nôl. Deal tymheredd negat
a positif.

Gosodwch y tymheredd isod
mewn trefn, yr oeraf
gyntaf.

a

$-8^{\circ}, -6^{\circ}, -4^{\circ}, -1^{\circ}, 2^{\circ}$




b

$-15^{\circ}, -11^{\circ}, 5^{\circ}, 10^{\circ}$
 14°

database Fruits of the world

chwilio cofnod 1 i 14 o 14

Name of fruit	Country	Plant or tree	Calories	Picture
Mango	Brâzil	Tree	60	
Grape	Italy	Plant	87	
Pear	North Africa	Tree	52	
Coconut	Fiji	Tree	1,405	
Avacodo	Mexico	Tree	52	
Grapefruit	Israel	Tree	52	
Pineapple	Costa Rica	Tree	452	
Apple	Greece	Tree	52	
Banana	Caribbean	Tree	88	



Enw Cyfansoddwr: **CLAUDE DEBUSSY**
 Baner y wlad: 
 Enwog am gyfansoddi: **Children's Corner Suite**
 Dyddiadau: **22.09.1862**
 Ffaith diddrol: **Charles-François Lippman**

Rydych yn mynd ar daith gerddorol. Defnyddiwch y cod QR er mwyn darganfod ffeithiau am gyfansoddwyr.

Nod y wers: Darganfod ffeithiau cyfansoddwyr.
 Meini Prawf llwyddiant:
 Rwyf wedi cynnwys ffeithiau.
 Rwyf wedi nodi o ba wlad mae'r cyfansoddwr yn dod.
 Rwyf wedi nodi dyddiadau'r cyfansoddwyr.

Enw Cyfansoddwr: **WOLFGANG AMADEUS MOZART**
 Baner y wlad: 
 Enwog am gyfansoddi: **Piano Sonata No. 11**
 Dyddiadau: **27.01.1756**
 Ffaith diddrol: **Salvatore**

Enw Cyfansoddwr: **Grace Williams**
 Baner y wlad: 
 Enwog am gyfansoddi: **Hen Wallia**
 Dyddiadau: **1906-1977**
 Ffaith Diddrol

Enw Cyfansoddwr: **ANTONIO VIVALDI**
 Baner y wlad: 
 Enwog am gyfansoddi: **The Four Seasons**
 Dyddiadau: **04.03.1678**
 Ffaith diddrol: **Marco Antonio Ziani**

Enw Cyfansoddwr: **FREDERIC CHOPIN**
 Baner y wlad: 
 Enwog am gyfansoddi: **Polaris in A-Minor**
 Dyddiadau: **01.03.1818**
 Ffaith diddrol: **Wojciech Jankowski**

Enw Cyfansoddwr: **LUDWIG VAN BEETHOVEN**
 Baner y wlad: 
 Enwog am gyfansoddi: **Symphony No. 5**
 Dyddiadau: **16.12.1770**
 Ffaith diddrol: **Bonn**

Da'ion ti! 
 Her ychwanegol: Ychwilio i rwyf o gyfansoddwyr.



Dydd Mawrth Mai 14

Dydd Mawrth, 14th Mai 2019

Bas Data
 Nod y wers: Creu bas data

Edrychwch ar y cardiau "Ffrwyth o Ffeithiau". Mewbynnwch y ffeithiau er mwyn creu bas data ffrwythau.

Sawl moes sydd yn y bas data? 5

Trefnwch y data er mwyn rhestru'r ffrwythau yn ôl trefn y wyddor.

Er mwyn gwneud y bas data'n fwy diddrol, ychwanegwch foes llun o'r ffrwyth.

Mae hyfforddwr rygbi Cymru yn chwilio am ffrwyth llai na 500 calori. Hidlwch y canlyniadau i ddangos ffrwythau sydd 500 calori ac yn is. Rhestrwch y ffrwythau sydd ar ôl.

Grawrin

afal
 banana
 lemon
 mango

Nod: Creu bas data J2e.

Meini prawf	Fi	Syr
Medru mewbynnu data	☒	☒
Rwyf yn medru gwneud orchuddiad sylw	☒	☒
Trefnu'r ffrwythau yn nhrefn y wyddor	☒	☒
Ychwanegu mae ychwanegol	☒	☒